General Optical Council

# Adnodd Sgrinio Asesiad Effaith

| | |
|---|---|
| **Enw'r polisi neu'r broses** | Strategaeth y Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) 2025 – 2030 |
| **Pwrpas y polisi neu'r broses** | Nodi cyfeiriad strategol y GOC ar gyfer y cyfnod 2025-2030 a nodi themâu strategol allweddol o fewn y cyfnod hwnnw |
| **Tîm/Adran** | Polisi a Safonau |
| **Dyddiad** | 25/01/2024 |
| **Sgrin wedi'i chynnal gan** | Charlotte Urwin |
| **Cymeradwywyd gan** | Steve Brooker |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 11/04/2024 |
| **Cyfarwyddiadau:** | • Rhowch gylch neu lliwiwch statws cyfredol y prosiect neu'r polisi ar gyfer pob rhes.<br>• **Peidiwch â methu unrhyw resi**. Os nad yw'n berthnasol – rhowch Amh., os nad ydych yn gwybod rhowch farc cwestiwn yn y golofn honno.<br>• Mae hwn yn adnodd byw, byddwch yn gallu ei ddiweddaru ymhellach wrth i chi gwblhau mwy o gamau gweithredu.<br>• Gwnewch yn siŵr bod eich dewisiadau'n gywir ar adeg eu cwblhau.<br>• Penderfynwch a ydych chi'n credu bod angen asesiad effaith **llawn** i restru'r risgiau a'r camau lliniaru / cryfhau.<br>• Os ydych chi'n credu nad oes angen asesiad effaith llawn, rhowch eich rhesymau yn y bylchau gwag o dan bob adran.<br>• Gallwch gynnwys sylwadau yn y blychau neu yn y gofod isod.<br>• Cyflwynwch y ffurflen wedi'i chwblhau i'r Rheolwr Cydymffurfio i'w chymeradwyo. |

| A) Effeithiau | Risg uchel | Risg ganolig | | Risg isel | ? neu Amh. |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. Cronfeydd wrth gefn | Mae'n debygol y bydd angen defnyddio'r cronfeydd wrth gefn | Mae'n bosibl y bydd angen defnyddio'r cronfeydd wrth gefn | | Dim effaith ar y cronfeydd wrth gefn / ni ddefnyddir y cronfeydd wrth gefn | |
| 2. Cyllideb | Nid oes cyllideb wedi'i dyrannu na'i chytuno, ond bydd angen | Nid yw'r gyllideb wedi'i dyrannu, ond cytunir i'w throsglwyddo cyn bo hir | Mae'r gyllideb wedi cael ei dyrannu, ond efallai y bydd angen mwy (gan gynnwys yn y dyfodol) | Does dim angen cyllideb NEU mae cyllideb wedi'i dyrannu ac mae'n annhebygol y bydd angen mwy | |
| 3. Deddfwriaeth, Canllawiau neu Reoliadau | Ddim yn siŵr am y ddeddfwriaeth berthnasol | Yn ymwybodol o'r holl ddeddfwriaeth ond heb ei chynnwys eto o fewn prosiect / proses | Yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth, mae wedi'i chynnwys yn y broses / prosiect, ond nid ydym yn cydymffurfio eto | Yn ymwybodol o'r holl ddeddfwriaeth, mae wedi'i chynnwys yn y prosiect / proses, ac rydym yn cydymffurfio | |
| 4. Newidiadau i ddeddfwriaeth yn y dyfodol | Mae'r ddeddfwriaeth i fod i gael ei newid o fewn y 12 mis nesaf | Mae'r ddeddfwriaeth i fod i gael ei newid o fewn y 24 mis nesaf | Efallai y bydd deddfwriaeth yn cael ei newid rywbryd yn y dyfodol agos | Nid oes unrhyw gynlluniau i newid deddfwriaeth | |
| 5. Enw da a'r cyfryngau | Mae'r pwnc hwn yn cael llawer o sylw yn y cyfryngau ar hyn o bryd, neu yn ystod y 12 mis diwethaf | Mae'r pwnc hwn wedi cael mwy a mwy o sylw yn y cyfryngau yn ystod y 12 mis diwethaf | Nid yw'r pwnc hwn wedi cael llawer o sylw yn y cyfryngau yn ystod y 12 mis diwethaf | Nid yw'r pwnc hwn wedi cael llawer o sylw yn y cyfryngau yn ystod y 12 mis diwethaf, os o gwbl. | |
| 6. Adnoddau (pobl ac offer) | Angen adnoddau newydd | Yn debygol o'i gwblhau gyda'r adnodd presennol, neu drwy rannu adnodd | Yn debygol o'i gwblhau gyda'r adnodd presennol | Yn gallu cwblhau gyda'r adnodd presennol | |
| 7. Cynaliadwyedd | Mae llai na 5 o bobl yn ymwybodol o'r broses / prosiect, ac nid yw'n cael ei gofnodi'n ganolog nac yn llawn | Mae llai na 5 o bobl yn ymwybodol o'r prosiect / proses, ond mae'n cael ei gofnodi'n ganolog ac yn llawn | Mae mwy na 5 o bobl yn ymwybodol o'r broses / prosiect, ond nid yw'n cael ei gofnodi'n llawn a / neu'n ganolog | Mae mwy na 5 o bobl yn ymwybodol o'r broses / prosiect, ac mae'n cael ei gofnodi'n ganolog ac yn glir | |
| | Nid oes cynlluniau ar waith ar gyfer hyfforddiant, a / neu nid oes dyddiad wedi'i | Nid yw'r deunydd hyfforddi wedi'i greu, ond mae'r cynllun hyfforddi a'r perchennog wedi'u | Mae'r deunyddiau a'r cynllun hyfforddi wedi'u creu, a'r perchennog wedi'i nodi a'r dyddiadau cwblhau wedi'u pennu | Hyfforddiant wedi'i gwblhau a'i gofnodi gyda'r adran Adnoddau Dynol | Amh. |

| A) Effeithiau | Risg uchel | Risg ganolig | | Risg isel | ? neu Amh. |
|---|---|---|---|---|---|
| | bennu ar gyfer cwblhau'r hyfforddiant | nodi a'r dyddiadau cwblhau wedi'u pennu | | | |
| 8. Cyfathrebu / codi ymwybyddiaeth | Nid oes cynllun cyfathrebu ar waith, ac nid oes perchennog nac amserlen wedi'u nodi | Mae cynllun cyfathrebu allanol ar waith (gan gynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol) ond heb ei gwblhau, ac mae perchennog a dyddiadau cwblhau wedi'u nodi | Mae cynllun cyfathrebu mewnol ar waith (ar gyfer pob lefel ac adran berthnasol) ond heb ei gwblhau, ac mae perchennog a dyddiadau cwblhau wedi'u nodi | Mae cynllun cyfathrebu mewnol ac allanol ar waith ac wedi'u cwblhau, ac mae'r perchennog a'r dyddiadau cwblhau wedi'u nodi | |
| | Ddim yn siŵr a oes angen ei gyhoeddi yn Gymraeg | Rhaid ei gyhoeddi yn Gymraeg; mae'r Tîm Cyfathrebu yn ymwybodol | | Nid oes angen ei gyhoeddi yn Gymraeg | |

| Rhowch sylwadau isod am eich sgoriau effeithiau uchod: |
|---|
| 1 a 2. Cefnogir y strategaeth newydd gan strategaeth ariannol a pholisi cronfeydd wrth gefn. Byddwn hefyd yn parhau â'n proses gyllidebu flynyddol a'n rheolaeth ariannol barhaus. Disgwylir y bydd angen ariannu rhywfaint o'r gwaith a wneir o dan y strategaeth newydd, er enghraifft, gwelliannau i MyGOC i gefnogi gofynion DPP newydd, drwy ddefnyddio ein cronfeydd wrth gefn.<br><br>3 a 4. Rydym yn rhagweld y bydd deddfwriaeth y GOC yn cael ei diweddaru o fewn y cyfnod sy'n dod o dan y strategaeth newydd, fel rhan o agenda diwygio rheoleiddio'r Llywodraeth.<br><br>6. Mae'n bosibl y bydd newid i fodel rheoleiddio sy'n fwy rhagweledol ac sy'n ceisio atal niwed ar sail dull sy'n seiliedig ar risg, sy'n cael ei yrru gan ddata ac sy'n cyfuno ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth gan drosi hyn yn gamau gweithredu effeithiol, yn galw am adnoddau ychwanegol i gyflawni'r model rheoleiddio newydd hwn. Gall hyn gael ei ariannu gan arbedion mewn rhannau eraill o'r busnes, e.e. symud swyddfa o bosibl.<br><br>8. Mae gennym gynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ac ymgynghori ar y strategaeth. Byddwn yn cyfieithu'r ddogfen ymgynghori i'r Gymraeg. |

| B) Llywodraethu gwybodaeth | Risg uchel | Risg ganolig | | Risg isel | ? neu Amh. |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. Pa ddata sy'n cael ei gynnwys? | Data personol sensitif | Data personol | Data busnes preifat / caeedig | Data busnes agored / cyfrinachol | Amh. |
| 2. A fydd y data’n cael ei wneud yn ddienw? | Na | Weithiau, mewn dogfennau a rennir | Bydd, ar unwaith, a chedwir y gwreiddiol | Bydd, ar unwaith, a dilëir y gwreiddiol | Amh. |
| 3. A fydd modd adnabod rhywun o’r data? | Bydd | Bydd, ond mae ei enw eisoes yn y parth cyhoeddus (SMT / Cyngor) | Nid o’r data hwn yn unig, ond o bosibl pan fydd data’n cael ei gyfuno â ffynhonnell arall | Na – mae’r cyfan yn ddienw ac ni ellir ei gyfuno â gwybodaeth arall | Amh. |
| 4. A fydd yr **holl** ddata a gesglir yn cael ei ddefnyddio? | Na, efallai yn y dyfodol | Bydd, ond dyma’r tro cyntaf i ni ei gasglu a’i ddefnyddio | Bydd, ond nid yw wedi cael ei ddefnyddio’n llawn o’r blaen | Bydd, mae’r data eisoes yn cael ei ddefnyddio’n llawn | Amh. |
| 5. Faint o ddata sy’n cael ei drin bob blwyddyn? | Llawer – dros 4,000 o gofnodion | Canolig – rhwng 1,000-3,999 o gofnodion | | Llai na 1,000 o gofnodion | Amh. |
| 6. Ydych chi’n cael cydsyniad gan destun y data? | Nac ydyn | O bosib, mae’n cael ei egluro ar ein gwefan (Amdanom Ni) | Ydyn, cydsyniad penodol, heb ei gofnodi bob amser | Ydyn, cydsyniad penodol, wedi’i gofnodi / neu’n rhan o ddyletswydd / contract statudol | Amh. |
| 7. Ydych chi’n gwybod am ba hyd y bydd y data’n cael ei gadw? | Nac ydyn – nid yw ar yr amserlen cadw eto | Ydyn – mae ar yr amserlen cadw | Ydyn – ond nid yw ar yr amserlen cadw | Mae ar yr amserlen cadw **ac** mae'r gweithwyr perthnasol yn ymwybodol | Amh. |
| 8. Ble ac ym mha fformat y byddai’r data’n cael ei gadw? (dilëwch fel sy’n briodol) | Papur; gartref / oddi ar y safle; system neu ddarparwr TG newydd; Survey Monkey; gliniadur personol | Papur; ystafell archif; storfa swyddfa (wedi’i chloi) | Gyriant a rennir y GOC; gyriant personol | System TG arall (sy’n cael ei defnyddio); porth ar-lein; CRM; Wedi'i sganio a’i gadw ar *H: drive team / dept folder* | Amh. |
| 9. A yw ar y gofrestr asedau gwybodaeth? | Nac ydy | Ddim eto, rydw i wedi cyflwyno i’r Perchennog Asedau Gwybodaeth (IAO) | Ydy, ond nid yw wedi cael ei adolygu gan yr IAO | Ydy, ac mae wedi cael ei adolygu gan yr IAO **a’i** gymeradwyo gan adran y Llywodraeth. | Amh. |
| 10. A fydd data’n cael ei ddatgelu neu ei rannu gyda thrydydd partïon? | Bydd, ond does dim cytundebau ar waith | Bydd, mae cytundeb ar waith | O bosibl dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth | Na, defnydd mewnol yn unig | Amh. |

| B) Llywodraethu gwybodaeth | Risg uchel | Risg ganolig | | Risg isel | ? neu Amh. |
|---|---|---|---|---|---|
| 11. A fydd unrhyw un y tu allan i'r UE yn trin y data? | Bydd | - | - | Na | Amh. |
| 12. A fydd data personol neu adnabyddadwy yn cael ei gyhoeddi? | Bydd – heb ei gymeradwyo gan tîm Cydymffurfiaeth eto | Bydd - wedi ei gymeradwyo gan y tîm Cydymffurfiaeth | Na, bydd data personol ac adnabyddadwy yn cael ei olygu | Na - ni fydd unrhyw ddata personol neu adnabyddadwy yn cael ei gyhoeddi | Amh. |
| 13. Mae unigolion sy'n trin y data wedi cael eu hyfforddi'n briodol | Nid yw rhai pobl erioed wedi cael eu hyfforddi gan GOC ym maes Llywodraethu Gwybodaeth (IG) | Mae pob un wedi cael hyfforddiant ym maes IG yn ystod y 12 mis diwethaf | | Ydyn, mae pob un wedi cael hyfforddiant ym maes IG yn ystod y 12 mis diwethaf | Amh. |

| Rhowch sylwadau isod am y rhesymau dros y sgoriau llywodraethu gwybodaeth: |
|---|
| Byddwn yn dilyn ein dull safonol o ymdrin ag ymgynghoriadau cyhoeddus, yn unol â'n polisi ymgynghori a'n hysbysiad preifatrwydd.<br>Nid yw'n berthnasol ar gyfer yr adran hon oherwydd dylai'r asesiad o'r effaith ganolbwyntio ar faterion polisi sylweddol, yn hytrach na'n prosesau ymgynghori safonol.<br>Bydd effeithiau llywodraethu gwybodaeth yn amrywio ar draws y prosiectau a gyflawnir o dan y strategaeth a byddant yn cael eu hasesu fesul prosiect fel y bo'n briodol. |

| **C) Hawliau dynol, cydraddoldeb a chynhwysiant** | **Risg uchel** | **Risg ganolig** | | **Risg isel** | **? neu Amh.** |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. Prif gynulleidfa / defnyddiwr polisi | Y Cyhoedd | | | Cofrestreion, cyflogeion neu aelodau | |
| 2. Cymryd rhan mewn proses (yr hawl i gael eich trin yn deg, yr hawl i ryddid mynegiant) | Ydy, mae'r polisi, y broses neu'r gweithgaredd yn cyfyngu ar gynhwysiant, rhyngweithiad neu gyfranogiad unigolyn mewn proses | | | Nac ydy, nid yw'r polisi, y broses neu'r gweithgaredd yn cyfyngu ar gynhwysiant, rhyngweithiad neu gyfranogiad unigolyn mewn proses | |
| 3. Mae'r polisi, y broses neu'r gweithgaredd yn cynnwys gwneud penderfyniadau, sy'n rhoi canlyniadau i unigolion (yr hawl i dreial teg, yr hawl i gael eich trin yn deg) | Ydy, caiff y penderfyniad ei wneud gan un person, a all neu na all adolygu pob achos | Ydy, caiff y penderfyniad ei wneud gan un person, sy'n adolygu pob achos | Ydy, caiff y penderfyniad ei wneud gan banel sy'n cael ei ddewis ar hap, a all neu na all adolygu pob achos | Ydy, mae'r penderfyniad yn cael ei wneud gan banel cynrychioladol (wedi'i ddewis yn benodol) NEU Na, does dim angen gwneud unrhyw benderfyniadau | |
| | Prin yw'r meini prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau; gwneir penderfyniadau ar sail barn bersonol | Mae rhai meini prawf penodol ar gyfer gwneud penderfyniadau; gwneir penderfyniadau ar ystyriaeth 'achos-wrth-achos' | Mae meini prawf clir ar gyfer gwneud penderfyniadau, ond nid oes ffurflen i gofnodi'r penderfyniad | Mae meini prawf penderfynu clir a ffurflen i gofnodi'r penderfyniad | |
| | Nid oes adolygiad mewnol na phroses apelio annibynnol | Mae ffordd o apelio'n annibynnol, ond nid oes proses adolygu fewnol | Mae proses adolygu fewnol, ond does dim ffordd o apelio'n annibynnol | Mae proses glir ar gyfer apelio neu gyflwyno achwyniad er mwyn i'r canlyniad gael ei adolygu'n fewnol a'i adolygu'n annibynnol | |
| | Nid yw'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wedi cael hyfforddiant cydraddoldeb, | Bydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn | Nid yw'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn | Mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wedi cael hyfforddiant EDI a | |

| C) Hawliau dynol, cydraddoldeb a chynhwysiant | Risg uchel | Risg ganolig | | Risg isel | ? neu Amh. |
|---|---|---|---|---|---|
| | amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) a rhagfarn ddiarwybod, ac nid oes cynlluniau ar gyfer hyn yn y 3 mis nesaf | cael hyfforddiant EDI a rhagfarn ddiarwybod yn ystod y 3 mis nesaf, ac mae'r hyfforddiant wedi cael ei drefnu | cyfrannu cyn cael hyfforddiant EDI a rhagfarn ddiarwybod | rhagfarn ddiarwybod yn ystod y 12 mis diwethaf, sy'n cael ei gofnodi | |
| 4. Hyfforddiant i bob unigolyn perthnasol | Mae llai na 50% o’r unigolyn perthnasol wedi cael hyfforddiant EDI yn ystod y 12 mis diwethaf; ac nid oes unrhyw hyfforddiant pellach wedi’i gynllunio | Mae dros 50% o’r unigolyn perthnasol wedi cael hyfforddiant EDI, ac mae hyfforddiant wedi’i drefnu ar gyfer pob unigolyn perthnasol arall yn ystod y 3 mis nesaf. | | Mae dros 80% o’r unigolyn perthnasol wedi cael hyfforddiant EDI yn ystod y 12 mis diwethaf, sy’n cael ei gofnodi | |
| 5. Ffurflenni amgen – electronig / ysgrifenedig ar gael? | Dim fformatau amgen ar gael – dim ond un opsiwn | Oes, ar y rhyngrwyd / ar gyfrifiadur yn bennaf, ond gellir defnyddio fersiynau papur | | Mae fformatau amgen ar gael a gall defnyddwyr eu trafod a’u cwblhau gyda’r tîm | |
| 6. Lleoliad lle cynhelir y gweithgaredd | Nid yw hygyrchedd yr adeilad wedi cael ei ystyried | Mae hygyrchedd yr adeilad weithiau’n cael ei ystyried | | Mae hygyrchedd yr adeilad bob amser yn cael ei ystyried | Amh. |
| | Adeilad anhygyrch; | Adeiladau rhannol hygyrch; | Adeiladau hygyrch, er nad yw pob safle wedi cael ei arolygu | Mae’r holl adeiladau a safleoedd hygyrch wedi cael eu harolygu | Amh. |
| 7. Presenoldeb | Hysbysiad byr o ddyddiadau / lleoliadau i fynychu | Hysbysiad canolig (5-14 diwrnod) o ddyddiadau / lleoliadau i fynychu | | Wedi’i gynllunio ymhell ymlaen llaw | Amh. |
| | Mae newid mewn trefniadau yn digwydd yn aml iawn | Mae newid mewn trefniadau yn digwydd yn eithaf aml | | Mae newid mewn trefniadau yn anghyffredin | Amh. |
| | Yn gallu mynychu yn bersonol yn unig | Mae’n ofynnol mynychu yn bersonol yn bennaf | | Yn gallu mynychu o bell | Amh. |
| | Presenoldeb / cyfranogiad anghyfartal ymhlith mynychwyr | Presenoldeb / cyfranogiad anghyfartal ymhlith mynychwyr, ond caiff hyn ei fonitro a’i reoli | | Presenoldeb / cyfranogiad cyfartal ymhlith mynychwyr, ac yn cael ei fonitro fesul mynychwr | Amh. |

| C) Hawliau dynol, cydraddoldeb a chynhwysiant | Risg uchel | Risg ganolig | | Risg isel | ? neu Amh. |
|---|---|---|---|---|---|
| | Dim gwyliau crefyddol yn cael eu hystyried; dim ond gwyliau Cristnogol sy’n cael eu hystyried | Ystyrir prif wyliau crefyddol y DU | Ystyrir prif wyliau crefyddol y DU, a gofynnir am gyngor gan unigolion yr effeithir arnynt os nad oes dyddiadau amgen | Ystyrir gwyliau crefyddol, a’r gallu i fod yn hyblyg (ar ddyddiadau, neu ddisgwyliadau hyblyg os nad oes dyddiadau amgen) | Amh. |
| 8. Costau cysylltiedig | Nid yw treuliau posibl wedi’u cynnwys yn ein polisi treuliau | Gall rhai pobl, sy’n dangos tystiolaeth o’u hangen, hawlio treuliau posibl, a gwneir penderfyniadau fesul achos | | Gall y rhan fwyaf o ddefnyddwyr hawlio am dreuliau posibl, ac mae hyn wedi’i gynnwys yn ein polisi treuliau; mae rhadbost ar gael | |
| 9. Yn deg ar gyfer anghenion yr unigolyn | Cyswllt heb ei restru i drafod addasiadau rhesymol, gweithwyr ddim yn ymwybodol o gynghorwyr addasiadau rhesymol | Mae’r rhan fwyaf o weithwyr yn gwybod pwy i gysylltu â nhw gydag ymholiadau am addasiadau rhesymol | | Rhestrwyd yr enw cyswllt ar gyfer trafodaeth addasiadau rhesymol | |
| 10. Ymgynghori a Chynhwysiant | Dim ymgynghori; ymgynghori â gweithwyr mewnol yn unig | Ymgynghori â gweithwyr ac aelodau | Ymgynghori â gweithwyr, aelodau a grwpiau ehangach | Ymgynghori â defnyddwyr polisi, gweithwyr, aelodau a grwpiau ehangach | |

| Rhowch sylwadau isod am y rhesymau dros y sgoriau hawliau dynol, cydraddoldeb a chynhwysiant uchod: |
|---|
| 1 Fel rheoleiddiwr sy’n ffocysu ar ddiogelu’r cyhoedd, y brif gynulleidfa / defnyddiwr polisi yw’r cyhoedd. |

| Nodwedd Warchodedig | Math o effaith bosibl: cadarnhaol, niwtral, negyddol? | Esboniadau (gan gynnwys enghreifftiau neu dystiolaeth / data a ddefnyddiwyd) a chamau gweithredu i fynd i’r afael ag effaith negyddol |
|---|---|---|
| Oedran | Cadarnhaol | Bydd y thema strategol o greu gwasanaethau gofal llygaid tecach a mwy cynhwysol yn cynnwys gwaith i dynnu sylw at anghydraddoldebau sy’n wynebu’r cyhoedd, cleifion a |

| Nodwedd Warchodedig | Math o effaith bosibl: cadarnhaol, niwtral, negyddol? | Esboniadau (gan gynnwys enghreifftiau neu dystiolaeth / data a ddefnyddiwyd) a chamau gweithredu i fynd i'r afael ag effaith negyddol |
|---|---|---|
| | | gweithwyr proffesiynol, yn ogystal â helpu i leihau'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag defnyddio gwasanaethau, cefnogi'r rheini mewn amgylchiadau bregus i gael gofal o ansawdd uchel, a mynd i'r afael ag amgylcheddau gwaith negyddol.<br><br>Mae ein harolwg cofrestryddion blynyddol yn dangos bod cofrestryddion iau yn fwy tebygol o brofi bwlio, aflonyddu neu wahaniaethu. Bydd mynd i'r afael â'r mater hwn felly'n cael effaith gadarnhaol ar gofrestryddion iau. |
| Anabledd | Cadarnhaol | Bydd y thema strategol o greu gwasanaethau gofal llygaid tecach a mwy cynhwysol yn cynnwys gwaith i dynnu sylw at anghydraddoldebau sy'n wynebu'r cyhoedd, cleifion a gweithwyr proffesiynol, yn ogystal â helpu i leihau'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag defnyddio gwasanaethau, cefnogi'r rheini mewn amgylchiadau bregus i gael gofal o ansawdd uchel, a mynd i'r afael ag amgylcheddau gwaith negyddol.<br><br>Mae ein harolwg cofrestryddion blynyddol yn dangos bod cofrestryddion ag anabledd yn fwy tebygol o brofi bwlio, aflonyddu neu wahaniaethu. Bydd mynd i'r afael â'r mater hwn felly'n cael effaith gadarnhaol ar gofrestryddion.<br><br>Mae ein gwaith ymchwil ym maes canfyddiadau'r cyhoedd yn dangos bod pobl ag anabledd yn llai bodlon ag ansawdd y gwasanaeth maen nhw'n ei dderbyn gan optometrydd / optegydd. Gall profiad gwael o ofal llygaid atal pobl ag anabledd rhag ceisio gofal pellach, gan arwain o bosibl at ganlyniadau iechyd gwaeth. O ganlyniad, byddai mynd i'r afael â rhwystrau a sicrhau bod pobl agored i niwed yn cael cymorth i gyrchu gofal yn cael effaith gadarnhaol ar bobl ag anabledd. |
| Rhyw | Cadarnhaol | Bydd y thema strategol o greu gwasanaethau gofal llygaid tecach a mwy cynhwysol yn cynnwys gwaith i dynnu sylw at anghydraddoldebau sy'n wynebu'r cyhoedd, cleifion a gweithwyr proffesiynol, yn ogystal â helpu i leihau'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag defnyddio gwasanaethau, cefnogi'r rheini mewn amgylchiadau bregus i gael gofal o ansawdd uchel, a mynd i'r afael ag amgylcheddau gwaith negyddol.<br><br>Mae ein harolwg cofrestryddion blynyddol yn dangos bod cofrestryddion benywaidd yn fwy tebygol o brofi bwlio, aflonyddu neu wahaniaethu. Bydd mynd i'r afael â'r mater hwn felly'n cael effaith gadarnhaol ar gofrestryddion benywaidd. |

| Nodwedd Warchodedig | Math o effaith bosibl: cadarnhaol, niwtral, negyddol? | Esboniadau (gan gynnwys enghreifftiau neu dystiolaeth / data a ddefnyddiwyd) a chamau gweithredu i fynd i'r afael ag effaith negyddol |
|---|---|---|
| Ailbennu rhywedd (traws ac anneuaidd) | Niwtral | |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Niwtral | |
| Beichiogrwydd / Mamolaeth | Niwtral | |
| Hil | | Bydd y thema strategol o greu gwasanaethau gofal llygaid tecach a mwy cynhwysol yn cynnwys gwaith i dynnu sylw at anghydraddoldebau sy'n wynebu'r cyhoedd, cleifion a gweithwyr proffesiynol, yn ogystal â helpu i leihau'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag defnyddio gwasanaethau, cefnogi'r rheini mewn amgylchiadau bregus i gael gofal o ansawdd uchel, a mynd i'r afael ag amgylcheddau gwaith negyddol.<br><br>Mae ein harolwg cofrestryddion blynyddol yn dangos bod cofrestryddion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o brofi bwlio, aflonyddu neu wahaniaethu. Bydd mynd i'r afael â'r mater hwn felly'n cael effaith gadarnhaol ar gofrestryddion.<br><br>Mae ein gwaith ymchwil ym maes canfyddiadau'r cyhoedd yn 2023 yn dangos nad yw 7.9% o ymatebwyr o leiafrifoedd ethnig erioed wedi cael prawf golwg, o'i gymharu â 2.6% o ymatebwyr gwyn. Mae 28.6% o ymatebwyr o leiafrifoedd ethnig yn dweud mai cost y prawf golwg yw'r ffactor sy'n gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus yn ymweld ag optometrydd / optegydd, o'i gymharu ag 14.8% o ymatebwyr gwyn. Bydd lleihau'r rhwystrau rhag cyrchu gwasanaethau a pharhau i dynnu sylw at anghydraddoldebau yn cael effaith gadarnhaol ar gleifion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. |
| Crefydd / cred | Niwtral | Bydd y thema strategol o greu gwasanaethau gofal llygaid tecach a mwy cynhwysol yn cynnwys gwaith i dynnu sylw at anghydraddoldebau sy'n wynebu'r cyhoedd, cleifion a gweithwyr proffesiynol, yn ogystal â helpu i leihau'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag defnyddio gwasanaethau, cefnogi'r rheini mewn amgylchiadau bregus i gael gofal o ansawdd uchel, a mynd i'r afael ag amgylcheddau gwaith negyddol. |

| **Nodwedd Warchodedig** | **Math o effaith bosibl: cadarnhaol, niwtral, negyddol?** | **Esboniadau (gan gynnwys enghreifftiau neu dystiolaeth / data a ddefnyddiwyd) a chamau gweithredu i fynd i'r afael ag effaith negyddol** |
|---|---|---|
| | | Mae ein harolwg blynyddol o gofrestryddion yn dangos bod unigolion sydd â chred Fwslimaidd a Sikhaidd yn fwy tebygol o brofi aflonyddu, bwlio neu gam-drin. Bydd mynd i'r afael â'r mater hwn felly'n cael effaith gadarnhaol ar gofrestryddion. |
| Cyfeiriadedd rhywiol | Niwtral | |
| Grwpiau eraill (e.e. gofalwyr, pobl o wahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol) | Niwtral | |

**Asesiad Effaith Llawn (i'w gwblhau os oes angen)**

Cam 1: Cwmpasu'r asesiad effaith

| | |
|---|---|
| **Enw'r polisi / swyddogaeth** | |
| **Asesydd** | |
| **Dyddiad y dechreuodd yr Asesiad Effaith** | |
| **Dyddiad cwblhau'r Asesiad Effaith** | |
| **Dyddiad adolygiad nesaf yr Asesiad Effaith** | |
| **Diben yr Asesiad Effaith** | |
| **Cymeradwywyd gan** | |
| **Dyddiad cymeradwyo** | |

**C1. Asesiad sgrinio**

- A oes asesiad sgrinio wedi cael ei ddefnyddio i nodi'r risgiau a'r effeithiau perthnasol posibl? Ticiwch bob un sydd wedi'i gwblhau:
  - ☐ Effeithiau
  - ☐ Llywodraethu gwybodaeth (preifatrwydd)
  - ☐ Hawliau dynol, cydraddoldeb a chynhwysiant
  - ☐ Nid oes dim wedi'i gwblhau

**C2. Gwybodaeth am y polisi, y broses neu'r prosiect**

- Beth yw prif nodau, pwrpas a chanlyniadau'r polisi neu'r prosiect?
- Dylech fod yn glir ynghylch y cynnig polisi: beth ydych yn gobeithio ei gyflawni ganddo? Pwy fydd yn elwa ohono?

| **Nodau** |
|---|
| |
| **Pwrpas a chanlyniad** |
| |
| **Pwy fydd yn elwa** |
| |

**C3. Gweithgareddau neu feysydd risg neu effaith y polisi neu'r broses**

- Pa weithgareddau / agweddau o'r polisi sy'n arbennig o berthnasol i effaith neu risg? Ar hyn o bryd nid oes rhaid i chi restru effeithiau posibl, dim ond nodi'r meysydd.

| Gweithgaredd / Agwedd |
|---|
| • |
| • |
| • |
| • |

**C4. Casglu’r dystiolaeth**

- Rhestrwch isod y data a’r ymchwil sydd ar gael a fydd yn cael eu defnyddio i bennu effaith y polisi, y prosiect neu’r broses.
- Ystyriwch bob rhan o’r broses neu’r polisi, a nodwch ble gellid dod o hyd i risgiau neu oblygiadau ar gyfer: 1) Effeithiau; 2) Llywodraethu gwybodaeth a goblygiadau preifatrwydd; a 3) Hawliau dynol, cydraddoldeb a chynhwysiant.

| Y dystiolaeth sydd ar gael – a ddefnyddir i gwmpasu a nodi effaith |
|---|
| |

**C5. Bylchau yn y dystiolaeth**

- A oes angen rhagor o wybodaeth arnoch i fesur tebygolrwydd a / neu hyd a lled yr effaith?
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn ystyried:
    1) Effeithiau;
    2) Llywodraethu gwybodaeth a goblygiadau preifatrwydd; a
    3) Hawliau dynol, cydraddoldeb a chynhwysiant.

**Os oes, nodwch nhw yma:**

| |
|---|
| |

**C6. Cyfranogiad ac ymgynghori**

| Cynhaliwyd ymgynghoriad, gyda phwy, pryd a sut |
|---|
| |
| **Crynodeb o’r adborth o’r ymgynghoriad** |
| |
| **Dolen i unrhyw gofnod ysgrifenedig o'r ymgynghoriad i'w gyhoeddi ochr yn ochr â'r asesiad hwn** |

| |
|---|
| |
| **Sut bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid yn parhau** |
| |

Cam 2: Asesu effaith a chyfle i hyrwyddo arfer gorau

- Gan ddefnyddio'r dystiolaeth rydych chi wedi'i chasglu, a oes modd nodi unrhyw effeithiau? Defnyddiwch y tabl isod i gofnodi eich canfyddiadau a'r llinyn / llinynnau yr effeithir arnynt.
- Beth ellir ei wneud i ddileu neu leihau unrhyw effaith a nodwyd?
- Ystyriwch bob rhan o'r broses neu'r polisi a nodwch ble gellid dod o hyd i risgiau o ran cydraddoldeb, hawliau dynol, llywodraethu gwybodaeth a phreifatrwydd.
- Sicrhewch fod unrhyw fylchau yn C5 yn cael eu cofnodi fel camau gweithredu ac ystyriaethau isod.

Defnyddiwch y tabl isod i gofnodi eich camau cryfhau (sydd eisoes ar waith neu'r rhai i'w cwblhau neu'u harchwilio ymhellach).

| Gweithgaredd / Agwedd | Effaith bosibl / gwirioneddol | Camau cryfhau i ddileu neu leihau effaith. Ar gyfer camau gweithredu, dylech gynnwys amserlenni |
|---|---|---|
| | Risg o... | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

Cam 3: Monitro ac adolygu

**C7. Pa fecanweithiau monitro sydd gennych ar waith i asesu effaith wirioneddol eich polisi?**

| |
|---|
| |

Rhowch ddyddiad adolygu i gwblhau diweddariad ar yr asesiad hwn (tri mis ar ôl y cwblhau cychwynnol).

**Dyddiad:**